

From THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

M. P. ... k. Parry ...

20 ... Books ...

L. H. A. G. O. N. K. E. N. ...

C. D. ...

TECEL:

SEP

YCHYDIG O

G A N I A D A U

A GYFANSODDWDYD GAN

HEN WR GODRAU'R MYNYDD.

SEP

GABRIEL PARRY.

LIANKWST:

ARGRAFFWYD GAN J. JONES.

1851.

Pris Chw'chwaing.

Jen Williams
grraig gerchen

Cerbyg y Pruidion

Mr Caruon

North Wales

Dymych Sir

1 Llanwrthwl 1849

Rhagymadrodd
hynaws ddarllen

RHAGY MADRODD.

Hynaws Ddarlennyddion.

Yr unig achos a wnaeth i mi feddwl am
argraffu y Llyfr hwn, ydoedd cael pigied
i'm llaw wrth fedi, ac felly yn analluog i
ddilyn fy ngwaith, ac arnaf eisiau beunydd-
iol ymborth i ddiwallu fy nheulu, felly
soniais wrth ryw rai o'm caredig freindiau
fod arnaf llŷs hel yr ychydig ganisadau a
wnaethym at eu gilydd. Cefnogodd llawer
fi i fyn'd yn mlaen, a dymunent arnaf roddi
hanes fy mywyd; y byddai hyn yu fry
pleser gounddynt, gan ddisgwyl gael cofia y
troiau drwg, sef meddwi, ac ymladd, ac
felly yn y blaen. Considerais inau, os
gwnawn hyn y byddwn yn offeryn yn llaw
Sattau i'w gyru i bechu. A dyna yr unig
achos a'm rhwystrodd. Ond gan imi addaw
rhoddi hanes fy mywyd, rhoddaf y ddau
beth mwyaf edifar sydd gennyf eu gwneu-
thur yu fy oes, sef yn gyntaf, Cymerais

dyddyn o'r enw Coed y Foel Ucha, yn agos i'r Bala. tan y Boneddwr clodadwy, sef yr Hybarch, R. W. PRICE, Esqr., Rhiwlas, am y swm o £48 yn y flwyddyn. Wedi bod yn talu y Rhent uchod un flwyddyn, gostyngodd prisiau yr Anifeiliaid yn fawr; aelluam inau at y Boneddwr a phenill wedi ei wneuthur iddo am ostyngiad ar y Tir. Parodd y Boneddwr i mi ei adrodd iddo, ac felly gwnes. Gwenodd y Boneddwr arnaf, a chymerodd ei Lyfr derbyn ei renti yn ei law, ac ysgrifennodd ei fod wedi gostwng y Rhent o £48 i £31 yn y flwyddyn, a dywedodd wrthyf, ei fod wedi gwneuthur yn foneddigaidd, ac na wyddai beth i wneyd yn ychwaneg, oni chymerai lwy, a rho'i bwyd yn fy nghog. Ond Ow! er fy ngholled, ni allaf ei phrisio, ni arosais yno ond pedair blynedd.—Felly hyderaf y bydd y llinellau hyn yn rhybudd i bawb sydd yn perchen eiddo, i ymwneud eu goreu i fyn'd tan Foneddigion, yn lle bod fel fi, wedi cael lle i fyw, yn symud, a myn'd tan wael bethau sydd wedi prynu Tiroedd ag arian iobl eraill.

Yr ail beth, gofalwch rhag myned at wyr y *Civils*; mi fu'm i yu y Siop hono, yn chwaraeu fy nghardiau yn Sesiwn Rhuthyn

D. S. a *Deis* oedd y trwm, i chwarae arno. Codais inau nhri Cardyn, a gwelwn fod yr *As Deis*, a'r *Brenin Deis*, a'r *Frenines Deis* genyf.—Ac felly, yn enw pob daioni, meddyliais nad oedd *ies* i neb chwarae yn fy erbyn. Ond gadawaf i'r Darllenydd ddyf-eisio pa sut y trechwyd fi hefo'r 3 Chardyn hyn,—sef *dau lygad Cloes*, *tri llygad speed*,—a'r *Cna Cloes*.—Felly gofaled pawb sydd yn perchen eiddo am adael Siop Gwyr y *Civils*, ar y llaw chwith, rhag ofn myned fel fi.—“A myned yn y diwedd, ar ol cadw swm, fel yr oen bach rhwng y Cigfran a'r Cwn.”—ond, garedig ffryndiau, ofer i mi mwy nae eraill o'm blaen, y'w disgwyl peidio cael fy nghablu, canys felly y gwnaed ag Enwogion yn mhob oes o'r byd wrth fynu'd trwyddo.—Cablai yr Atheniaid y Simonides am siarad gormod,—Cyhuddai y Shebiaid Paniculus, am boeri gormod, Gwaradwyddai y Carthageiniaid Haanibal, Am fyned a'i fynwes yn'agored,—chwarddai y Rhufeiniaid am ben Julius Sesar, am nad oedd wedi ei wregysu yn iawn.—Felly gwirionedd y'w, nad oes neb mor bar, na fedr Cynsigen gael rhyw beth ynddo i'w feio; gan hynny, heb ei fai, heb ei Eni.—Mae yr oes bresenol yn beio ar waith ardderchog

Mr. ROBERT DAVIES, Nantglyn, a'i gyffelyb, heb ystyried fod yn eu maesydd eu hunain le i Gamelod lechu, pe gwelid eu chwyn. Felly, gan dal fyru fy ymadrodd gyda dymuniad Calon i bob un gael ei ddwyn i oleuni yr Efyngyl, megis ag y mae yn Nghrist Iesu.—

Hynaws ddarlleneyddion, yr eiddoch oll, ac oll yn eiddoch.

GABRIEL PARRY.

Bryn Bras, Tachwedd 14, 1854.

Llusgwyd fi'n an'wyllysgar—i'r gafael,
Er gofid a galar;
Ni ches boen o achos bâr
Blys Esau a Belsassar.

Lluniwyd amryw gynllwynion.—direswm,
Er d'rysu i' amcauion ;
A go dost fu'r gau dystion,
Gwarthus waith, pe bai gwerth son.

T E C E L, & c.



Pennill i ddymuno llwyddiant i'r Efyngyl

Ar "God save the Queen"

Efyngyl sydd yn dangos gwerth,
A ymddangosodd yn y berth,
I Moses Bur,
Ymddangosed yma'n awr,
I holl drigolion daear lawr,
Ei gwawr, a'i gwedd,
Aed ei swm i bob lle,
I bob ardal tan y Nê,
I'r Gorllewin, Dwyrain, De,
A'r Gogledd doed,
Haleliwia, am hawl i'r Loes
Fawr ei grym fu ar y groes,
Haleliwia, i'r Hwn a'i rhoes—
Yn oes i ni. T. E.

Etto ar yr un mesur,—sef fy Nymuniad i'n Gwas-
usaf Frennes Victoria, yn y dyddiau
ofnadwy hyn,

Llwydd i Victoria, 'n awr,
Y Fanon, dirion, deg ei gwawr,
Iir, oes heb gel ;

Na chaffo Nicolas, ddiras ddŷn,
 Gario ei gleddyf, ar ei glun,
 Yn erbyn Hon,
 Ond gorfod rhoddi ei arfau i lawr,
 I Frenines Prydain Fawr,
 Na byddo gelyn iddi'n awr,
 O dan y Nef—
 Hir oes iddi ar ei sedd,
 I gyfnerthu, Efengyl Hedd,
 A'i thirion deulu yr un wedd.
 Daw'r hedd fo eu rhan. Amen.

Etto ar yr un mesur i Richard Watkin Price,
 Esqr., Rhiwlas, ger llaw'r Bala, am ôstwg ar fy
 nhir, sef Coed y Foel uchaf.

Sir Richard Watkin Price,
 Rhyw draethawd byr a wncis
 I chwi yn awr,
 'Nol clywed am eich gwaith,
 Boneddigaidd, mwynaid, maith,
 Amynedd mawr,
 I rai penaethiaid, rhediad rhwydd,
 Rhow'd grâs a synwyr at eu swydd,
 A'r lleill, yn feilchion, chwerwon,
 Yn oleu chwant. (chwydd,
 Y chwi sy'n gweled yn eich dydd,
 Fel mae'r Wlad tan fawr ludd,
 Amgylchiadau pethau sydd,
 Yn gudd i gant.

PENILLION.

Er Cof am Mr. Robert Ellis, Ty mawr, yr hwn a
 fu yn Flaenor gyda'r Methodistiaid Calfinaidd 60
 mlynedd, Gwr yn perchen Enaid mawr wrth add-
 oli, -- Hefyd calon haelionus wrth gyfranu i'r tylawd.
 —Wele fencu yn osfrwn fy hatling i'w goffau. Bu
 farw Mawrth y 27, 1854, yn 83 mlwydd oed.

Cenirar "Dinaiweidrwydd."

Trwm yw'r newydd clywed marw
 Robert Ellis yma'n awr,
 Wedi bod yn filwr ffyddlon,
 Yn Eglwys Crist am amser mawr,
 Bu drigain mlynedd yn blaenori,
 Ac yn rhagori ar y Gad,
 Yn hŷf gario baner Iesu,
 (Heb ei llygru) mewn gwellhad;
 Oh, mor wlithiog y gweddïai,
 Nes, dihidlai'r Nef i lawr
 Hen fendithion tragwyddoldeb
 Ar ei ben yn gafod fawr.
 Yn awr dychmyga ei wel'd yn syllu,
 Gan ryfeddu'r Iesu'n fawr,
 Yr hwn a'i carodd, ac a'i golchodd,
 Ac a'i llwyddodd, ar y llawr,
 Yn dymorol ac Ysprydol;
 Elusenol iawn a fu;
 Ni chae'r tylawd, ar un amgylchiad,
 Ond llaw agored, ganddo'n gu;

Yn awr mae'n medi, o firwyth ei lasur,
Mewn Môr o gysur, firwythydd firi,
Ac yn seimio cân na dderfydd
Byth am Aberth Calfari—

Ow, pwy a geir i gario ei gledde, ?
Ow, pwy a geir i lanw ei le, ?
Dichon Duw, rhaid addef hynny,
Wneyd i fynu, fel Efe,
Un o'i Blant neu un o'i Wyrion,
Yn enwogion Seion sydd,
Fel eu Taid, yn ddysglaer hynod,
Heb neb i'w ddanod, yn ei ddydd;
Bron nis gallaf brisio'r golled,
A gafodd Eglwys y Ty Mawr,
Na chwaith ddinad y llawenydd
Y mae Robert ynddo'n awr—

Ei wresog ffydd, a'i daer weddiau
Nid ynt yn cisiau iddo'n awr;
Ond bydd ei gariad yn cynnyddu,
Byth i dragwyddoldeb mawr;
O! Arglwydd plana yr un egwyddor,
Bu ei gyngor ini'n gall,
Sef ein hanwyl Frawd sy'n huno,
Darfu ein boddio, yn ddiball;
Ffarwel iddo hén Bererin,
Nid oes un Gelyn yn y Wlad,
Lle mae Robert, yn per seinio,
Am yr Iechawdwriaeth rád.

PENILLION.

Er côf am JOHN ROBERTS, Blaenor parhaus gyda'r
Trefnyddion Wesleyaidd, yn Ngherrygydruidion,
Ac yn fodeuog iawn hefo achos yr Arglwydd.
Gadawodd dystiolaeth eglur ei fod yn meddianu
Gwlad well—"Coffadwriaeth y Cyslaw'n sydd
fendigedig."

Cenir ar "Old Darby."

Oh Angau, hen elyn dinystriol,
Dy reol sydd gydiol â'r Gair,
Sef gelyn diweddaf Dynolryw,
Ni wiw i mi ymorol am air,
I geisio gwrthsefyll dy Golyn,
Pe meddwn Aur melyn Periw;
'Does dim ar y Dddear a'th rwystra',
Fel tystia pŵr eiriau fy Nuw—
Credadyn eill dystio, 'n ddiddychryn,
Ha Elyn! heb golyn, gwir yw,
Gorphenaist, gollyngaist fi'n llonydd,
I yfed Afonydd, Wyf Fyw;

Mawr golled gan bob un ysprydol,
Ar ol y Brawd siriol, bydd sôn,
Ni chlywir ei daerion Weddiau,
Mewn geiriau yn ddiau, ni ddon';
Yn awr y mae Ioan a'i Delyn,
O gyraedd un gelyn, mewn gwledd,
Yn seinio yr Anthem na dderfydd,
Ni dderfydd, ni dderfydd ei hedd,

Mae'n canu, mae'n gwenu'n dra-
gwyddol,
Mae'n siriol, ddedwyddol deg wêdd,
A'i wisgoedd cyn wyned a'r Eira,
Cadd gongwest ar Angau a'r Bêdd.

Mawr golled i'w anwyl hoff Briod.
Hawdd canfod, rwy'n gwybod, mewn
gwir,

Oedd colli'r llarieiddiaf o Ddynion,
Coll hefyd yn Seion 'nawr sydd ;
Heddychlon a fflyddlon yn Israel,
Yn dawel, yn isel dda nôd ;
Rhagori a wnaeth yn ei amser,—
Drwg-dymer ni welais erioed ;
Caredig, Cariadus gan frodyr,
A phob Dyn, trwy yr gwledydd yn
glir,

Duw alwodd ei Blentyn i wledda
Ar Fanna, a'r bara sydd bûr. —

Fe dystiodd, y'nghanol ei glefyd,
A'i adfyd, a'i benyd, a'i boen,
Fod ganddo orphwysfa eneidiol,
Fragwyddol lu Nefol i'w nôl ;
Fe ddaliodd ei arf, yn y frwydyr,
Yn bybur, yn eglur ei nôd,
Ha! Angau, pa le mae dy Golyn ?
Sef Gelyn Dynoldlyn erioed,

Ha! Uffern, ti gollaist dy asael,
Oh, diolch, yn dawel, i'n Duw !
Rwy'n awr yn preswyllo gwlad Nefol,
Ddedwyddol, anfarwol, i fyw —

Gadawodd ei deulu i alaru,
Aeth Ioan i ganu i'r wlad gu,
A'r Delyn, heb elyn, heb alar,
Heb garchar, heb ddaear oer ddu
Heb ofid, heb lid, heb dylodi ;
Ond canu a moli Mâb Mair ;
Agorodd y flordd rhwng y lladron,
Yn brydlon, yn gyson â'r Gair.
Gorphenwyd, agorwyd Nef gaerau,
Yn ddiâu i bawb ar a ddâl,
Mae'n galw ar Gloffion, Efryddion,
Dowch atto'n llu mwynion. Amen.

P E N I L L I O N ,

Ar y mesur "Diniweidrwydd", sef, ymddiddan
Rhwng Mrs. Elizabeth Jones,, White Lion, Cerrig
y Drudion, a'i phlentyn bach, pan oedd ar ymâd-
ael â'r fuchedd hon.

MARW. Fy anwyl dirion fam un galon,
Boddlona i'r Cyfion Dduw i'm cael,
Yn fy mebyd, i'r Nefoedd hyfryd,
Unig wynfyd i'r rhai gwael ;
Caf fyn'd o gyraedd pob rhyw elyn,
I ganu ar delyn euraidd dant,

Haleliwia sain Hosanna,
Yn y wynfa, gyda'r plant ;
Diolchaf it', am edrych arna ;
Pan yn Bacca, bu'm yn byw ;
Cael mynd yn more blodau'm dyddiau
Rhoi'm doniau ar dân i foli Duw.

Byw. Wel mi foddlonaf i Dduw'r
gorucha'

Dy gael, heb ana', i fyd sydd bur
I gwmi Angylion, gwynion ganoedd.
A Merthyron Siriol sydd,
I fysg y plant, yn sanct disorod
A laddodd Herod, byddi di
Yno'n canu yn dawel beraidd,
Byth am aberth Calfari ;
Rwy'n foddlon galon i Frenin Seion
Dy alw'n union atto i'r Nen,
I seinio cân Sanct, Sanct, Hosanna,
Haleliwia yn ddilen.

MARW. Ffarwel, fy mrodyr, ffarwel
chwiorydd,

Gwres a chynydd, gras i chwi,
I ddilyn llwybrau'r Nefoedd oleu,
Yn eich bore'r goreu'n gu ;
Mae Crist a'i frach yn estyngedig
Dowch at y meddyg, "Iesu mawr"
Mae ef yn barod,—ceisiwch gymod,

I roi gollyngdod ar y llawr ;
Dowch i'r dyfroedd bywiol tawel,
Yr Emmanuel, a i medd.
A Brenin Nefol mawr a'ch twyso,
I gael gorphwysu yn ngwlad yr hedd.

—
Bryni di am wâlbad i'm Llaw.

—
Cenir ar Gael yr A-leilad.

O, Arglwydd Dduw'r Arglwyddi!
Englyw, trwy Grist, fy ngweddi,
A'm griddfanau,
Wyt barod, Ior, i faddeu
Mewn myrdd o gyfyngdorau
Yn un âth eiriau ;
'Rwyf fi yn dioddef mewn mawr gri
Gan ergyd erwin, i'm Llaw ces bigin,
Tosturia'm Brenin
Rwy'n gofyn mewn mawr gur :
Agorwr geirwon donau,
Rhyddhau'r Dorau dur,
Rho flydd i gredu nos a dydd
Fod Meddyg diddig, anfaeledig,
Un parod hefyd, yn cynnyg rhyddid
rhydd,
Trugaredd i'r aflanaf, a'r duaf yma ar
dir,

'Does dim nad alli ei wneuthur,
 Fel tystia yr Ysgrythyr,
 Yn eglur wiwglod;
 Iachaist y Wraig o Gaanan,
 A'r Dall gwrandaistaist weithian,
 Y Duw Mawr Ethol,
 'Rwyf fi yn gofyn genyt ti,
 Yn enw Iesu, wrando fy ngweddi,
 Er nad wy'n haeddu, rhyglyddu dim
 yn glir

Ond poenau byth diddarfod,
 'Rwy'n gwybod hyn mewn gwir:
 Er hyn, mi a edrychaf tua'r Bryn,
 Lle bu fy Meichiau mawr yn dioddeu
 Gorchfygodd Angau, dattododd gloi-
 au'r glyn,
 A phardwn i bechadur,
 Fe wir gyhoeddir hyn.

Mi fentraf dy addewid,
 Sy'n galw heddyw'n hyfryd,
 Ar Fy'd o Ddynion,
 Ior parod wyt i faddeu,
 Yn sefyll wrth ein drysau,
 Os edrychwn;
 Yn wir, mae'r gallu ganddo'n glir,
 Ar lu y Nefoedd, a physg y moroedd,
 A phob arwyddion, a Dynion, nôs a
 dydd.

Gogoniant, Moliant mwynlon,
 Yn Seion iddo sydd.
 Mae'n Ben, i'w Eglwys wiwlwys wen,
 Nid Pabyddion, na neb o Ddynion,
 "Ond Iesu tirion, o'r Pigion ef yw'r
 Pen;

Coronwn ef â moliant,
 Mewn mwyniant byth. Amen.

P E N I L L I O N .

Pan oeddwn yn byw yn Birkenhead ymhlith
 Lladron a meddwn a Phabyddion, a bron a di-
 galoni,—cenis fel y canlyn.

Ar Mentra Gwen.

Fy anwyl gy faill tirion, wiwlon wedd,
 Pabeth sy'n blino'th galon, wiwlon wedd
 Ai ysgrechiadau 'r meddwn?
 Neu grefydd wael Pabyddion,
 Neu ofnau ymhlith Lladron?
 Moes im' gael ateb cyson, wiwlon wedd.
 Nid ofnau ymhlith y Lladron,
 coelia fi,
 Nag ysgrechiadau'r meddwn, coelia fi,
 Ond gofal am fy nheulu, sydd fân ac
 eisiau eu magu,
 A minau yn penwynu,
 Rwyn brudd oblegyd hyny, coelia fi.

Wel ofer yw gofalu, coelia fi,
Ni enillir cufydd felly, coelia fi,
Ystyria'r Brain a'r lili,
Nid ynt yn hau na medi,
Mae Brenin Nef i'w porthi ;
Rwyt tithau yn rhagori, coelia fi.

Wel diolcham dy gyngor, Gymro llon
Does eisiau dim yn rhagor, Gymro llon,
Cred yn yr Arglwydd Iesu ;
Cadwedig byth a fyddi,
Tydi a'th gyfan deula
O Arglwydd rho gynorthwy, i'r
Cymro llon.

P E N I L L I O N .

Wedi dyfod adref o Birkenhead, ac eisiau anedd-
dy i fyw, meddyliais godi Ty ar y mynydd, ac
felly y gwneis trwy gynorthwy Cymydogion car-
edig, ac nid oedd yn fy mhoced ond 12s. ni feldwn
na Rhaw, na Chaib, na throsol, ond y cyfan yn
arfau benthyg,—Dywedais fel y canlyn.

Mi godaf dy newydd, mi godaf dy
newydd,
Ar fynydd, ar fynydd i fyw,
I fod yn ddiddos uwch fy mhen
Rhag cawodau gwllith y Nen
Lle trigaf holl ddyddiau fy oes.

Ab mi

O dywyrch a cherig, o dywyrch a
cherig,
A'i gweithio'n hwy'n llithrig i'w lle,
Brwyn, a gryg fydd ar ei ben,
Rhag cawodau gwllith y Nen—
Lle trigaf holl ddyddiau fy oes.

Ac Allor a godaf, ac Allor a godaf,
Addolaf, addolaf E' yn Dduw ;
Pen Creawdwr Nef i gyd,
Deliwr moroedd, a'r holl byd
Mi a'th folaf, tra byddaf fi byw'

Cyfiawnder fy meichiau, cyfiawnder
fy meichiau,
A ylech fy meiau'n oll wyn,
Dechreuwyd hwn yn Bethlehem,
Ac ar Galfaria caed ei ben,
Fe bery, Fe bery am byth.

Ti olchaist Manasse, ti olchaist
Manasse,
A'r Lleidr pan gredai, ar y groes ;
Oh golch finau o'm pen i'm traed !
Er mwyn yr aberth mawr a gaed,
Mi a'th folaf tra byddaf fi byw.

Dawn nas gall tafod, dawn nas gall
tafod,
Byth draethu am y cymod a gaed,

Byth i oesoedd rif y gwllith,
Adrodd maint ei aberth byth,
Am hyny, wel tawed y dŷn.

Cael ffydd yn ei berson, cael ffydd
yn ei berson,

A wna i'r afradlon gael gwledd,
Gwledd o basgedigion bras,
A gloyw win puredig flas,
A wnaed gan ein Brenin, ar Bren,

Heddyw mae'n galw, heddyw mae'n
galw,

Pawb wrth ei enw, pob un,
Sef pechaduriaid duaf liw.
I gael trugaredd gyda Duw,
Diolchwn, diolchwn am hyn.

PENILLION.

A wnaethum pan oedd dirwest yn dechreu.

Wel rhown, ddirwestwyr, oll ein llef,
Ar Dduw in cynal ni
Na chaffo Sattan, byd a chnawd,
Byth fedd-dawd ynof fi,
A boed ieuengtyd hyd ein gwlad,
A'u caniad i Dduw eu,
Yn lleisio'n llafar, gerddgar gân,
Am Aberth Calfari.

Efengyl Iesu gaiff y dydd,
Ar gynnydd byddo'r gwaith,
A theyrnas Sattan etto'n ddim,
Mawl Iesu, fyddo'r gwaith.

A'r plant yn canu oll i gyd,
I Brynwr byd, fu ar bren,
Yn dioddef drosom farwol glwy,
Fe ei molir mwy. Amen.

PENILLION.

I Ddinasoedd Noddfa gynt yn Israel.

Fe gaed Beser, mewn gwastatir,
Hyn sydd wir, I Israel Duw,
Fe gaed Ramoth ir noeth ddiange,
Yn ddinag, fy Enaid clyw.
Fe gaed y Golan, i rhaï aflan,
O fewn i Basan ar eu taith,
Fe geir Crist i bawb a gredo,
Ac a'i ceisio yn benaf gwaith,

PENILLION.

Pan oeddwn ar y Môr o Lynlleifiad ar ystorm, ac
yn ofni colli fy mywyd, dywedais fel y canlyn—

Wrth weled y tonau, i'm bronau daeth
briw—
Ond diolch i'r Arglwydd, ti'm cedw-
aist yn fyw.

Nid dyma fy haeddiant, yn bendant
 Dduw cu
 Diderfyn Trugaredd, Iôr mwynaidd
 i mi,
 Diolchaf i'r Arglwydd, Pen Llywydd
 pob lle,
 Brenin Broninoedd, eneiniodd y Ne,
 Daliwr y Moroedd, a'r Tiroedd wyt
 Ti,
 Diderfyn Trugaredd, Iôr mwynaidd
 i mi.

P E N I L L .

O ddiolchgarwch i Mr. Robert Parry, Meistr Ffawr, Plwy Mlangwn, am ei ddiolch, a'i haelioni
 i mi.

Cenir ar Rodney.

Y puraidd Robert Parri
 Maddeuwch imi yn awr,
 Na fase fy Awen mewn cystrawen,
 O foled, i chwi yn fawr,
 Ond trwsgwl, ac anfedrus,
 Anweddus iawn yn wir,
 I geisio 'ch anerch, gyda mawr-serch,
 O draserch yma a'r dir,

Y chwi, sydd Impin pena'r gwled-
 d d,
 A'ch parch yn fawr, ymhob lle beun-
 ydd,
 Dyn trugarog iawn, lle byddoch,
 Danfon Blawd, a Chaws, a wnaethoch,
 I mi, oedd mewn tylodi, am Teulu yr
 un modd,
 Eich llaw haelionus, mewn modd
 gweddus,
 A gyfranai'n raenus rodd:
 I'ch anwyl Fam, 'rwyf yn ddiolchgar,
 A'ch brawd John Parri elusengar,
 Boed bendithion rîf y tywod,
 Ar a feddoch, yn ddiddarfod,
 Ac hefyd bendith Abram,
 Yn hurlan i bob pen,
 A ddymunwn, yn ddiameu,
 I chwi a mineu Amen. //

Cysuron Henaduriaid.

1. Cysur o'i Blant,
2. A chwymp ei elyniou
3. Ac Iechyd i'w gorph—
4. Ei bena Cysyron—
5. Digonedd o Fwyd—
6. A dillad da, am dano,
7. Mae gystal a Brenin,

8. Lle bynag y byddo.
9. Trugaredd i'w Enaid,
10. Gofaled am hyny:
11. Anwyl gyfeillion,
12. Rwy'n awr yn terfynu.



Er treiswyr, bradwyr ein bro, —i Gabriel
 Mae Gwobrau'n dylifo ;
 Er y ddedfryd, drymllyd dro,
Menc tecl, —mae'n tycio.

Dŷn a wêl ofidiau noeth, —hynt lwydaidd,
 Mewn tlodi'n esgeirnoeth :
 A gwir diau, medd gŵr doeth,
 Y daw gofid o gyfoeth.

Go ddigêl, mewn gweddi goeth, —mae Agur
 Yn dirmygu cyfoeth :—
 Dyna ddyn yn *dweyd* yn ddoeth,
 A ninau'n *gwneyd* yn anoeth.

